

Dillad



Dillad

Clôs lliain dynion

Clôs lliain dynion — (neu Llodrau) oedd yr haenen fewnol o ddillad ar gyfer dynion, sef tronsiau llac hir wedi'u gwneud o liain. Roeddent yn cael eu gwisgo o dan, ac yn llenwi'r bwloch rhwng, hosanau un goes yn y 13eg Ganrif a'r 14eg Ganrif. Wrth i hosanau fynd yn llawnach, aeth y clôs yn fyrrach ac yn llai.



Sut ydyn ni'n gwybod am glôs lliain?

Nid oes unrhyw enghreifftiau o glôs yn goroesi am fod lliain yn pydru'n rhy gyflym. "Dyfaliadau gorau" yw'r copïau hyn, wedi'u gweithio o dystiolaeth llawysgrifau goliwiedig o'r 13eg Ganrif, gan gynnwys Luttrell Psalter. Mae'n ymddangos bod gwerinwyr a oedd yn gweithio yn y caeau wedi gwisgo clôs heb yr hosan goes.

Dillad

Hosanau un goes gwllân â leinin i ddynion

Hosanau un goes gwllân â leinin i ddynion — dechreuodd hosanau fel gorchuddion traed syml ac yna ymestyn tuag i fyny i orchuddio mwy o goes. Yn ystod y 13eg Ganrif a llawer o'r 14eg Ganrif, roedd hosanau yn ddilladau un goes, ac weithiau roedd dynion yn gwisgo lliwiau gwahanol ar bob coes. Mae'r hosanau yn bachu'n uniongyrchol i fand gwasg (gwregys y llodrau) y clôs.



Sut ydyn ni'n gwybod am hosanau un goes gwllân?

Mae llawer o ddarluniau o ddynion yn gwisgo hosanau coes mewn llawysgrifau canoloesol, gan gynnwys Luttrell Psalter.

Dillad

Hosanau coes gwlân menywod

Hosanau coes gwlân menywod — sanau pen-glin oedd hosanau menywod, wedi'u torri o liain gwlân wedi'i wehyddu. Roeddent yn cael eu torri ar y bias i roi gymaint o symudiad â phosibl, ac roeddent yn eithaf llac yn aml ac yn cael eu dal i fyny â gardysau wedi'u clymu ychydig o dan y ben-glin. Efallai fod menywod cyfoethog wedi cael gardysau wedi'u gwneud o liain drud, wedi'i frodio o bosib, gyda byclau, a byddai menywod tlawd yn gwisgo lliain twil plaen neu frêd. Rydym wedi gwnio clymau i mewn i semau'r hosanau coes replica hyn i'w gwneud yn haws eu gwisgo, ond roedd gardysau ar wahân i hosanau coes y 13eg Ganrif.



Sut ydyn ni'n gwybod am hosanau coes menywod?

Nid oes unrhyw enghreifftiau o hosanau coes gwlân yn goroesi. "Dyfaliadau gorau" yw'r copïau hyn, wedi'u gweithio o dystiolaeth llawysgrifau goliwiedig o'r 13eg Ganrif. Mae'n bosibl bod sanau byrrach wedi'u gwau yn cael eu gwisgo, gan fod disgrifiadau mewn llawysgrifau, ond nid oes unrhyw dystiolaeth wedi goroesi — a dynion yn unig oedd yn gwau er difyrwrch yn yr Oesoedd Canol.



Dillad

Crysan / pais laes lliain menywod

Crysan/pais laes lliain menywod — roedd crysanau a pheisiau llaes yn cael eu gwisgo nesaf at y croen o dan ddillad allanol wedi'u haddurno'n fwy coeth. Yn ogystal â helpu i gadw'r sawl a oedd yn eu gwisgo'n gynnes, roeddent hefyd yn amsugno aroglau'r corff ac yn cadw'r dillad allanol yn lân ac yn ddiarogl am gyfnod hwy. Roedd hyn yn bwysig pan oedd pob dilledyn yn cael eu golchi â llaw, gan y byddai wedi bod yn haws ac yn gyflymach o lawer golchi crysan lliain na dilledyn gwlan trwm neu ddilledyn allanol wedi'i addurno'n goeth a gemog o bosibl, fel yr oedd y bonedd yn eu gwisgo.



Sut ydyn ni'n gwybod am gysanau lliain menywod?

Nid oes unrhyw enghreifftiau o gysanau lliain yn goroesi. "Dyfaliadau gorau" yw'r copïau hyn, wedi'u gweithio o dystiolaeth llawysgrifau goliwiedig o'r 13eg Ganrif. Mae tri math gwahanol iawn o gysan neu bais laes yn cael eu dangos mewn llawysgrifau canoloesol, ac mae amryw o gyfeiriadau hefyd mewn disgrifiadau ysgrifenedig at beisiau llais pletio ac wedi'u brodio. Rydym wedi dewis copïo'r siâp symlaf — dilledyn ffurf 't' yn debyg iawn i gysau dynion, ond yn hirach ac yn llawnach.

